# Asesu ceffylau harnais ar gyfer defnydd parhaus mewn harnais

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gallu asesu ceffylau harnais ar gyfer defnydd parhaus mewn harnais. Gallai hyn fod yn dilyn damwain, digwyddiad, anaf neu salwch. Mae'n cynnwys gallu pennu ymddygiad a lefel hyfforddiant ceffylau, a gwerthuso eu haddasrwydd ar gyfer cael eu hailhyfforddi i barhau i weithio mewn harnais.

Mae'r safon yn cynnwys gallu asesu ceffylau harnais ar gyfer defnydd yn y dyfodol neu hyfforddiant ar gyfer eu defnyddio at ddibenion yswiriant a thystion cyfreithiol/arbenigol.

Mae hefyd yn cynnwys asesu ceffylau achosion lles ar gyfer addasrwydd i hyfforddi ar gyfer harnais.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. egluro'r rheswm dros gynnal asesiad o'r ceffyl harnais ar gyfer ei ddefnydd parhaus mewn harnais
2. dyfeisio dulliau o asesu ymddygiad presennol y ceffyl yn ddiogel ac yn waraidd
3. asesu'r ceffyl o ran ei addasrwydd ar gyfer parhau i weithio mewn harnais
4. gwerthuso'r ceffyl at ddibenion yswiriant a thystion cyfreithiol/arbenigol
5. adrodd ar addasrwydd y ceffyl ar gyfer hyfforddiant adsefydlu
6. asesu peryglon a rheoli'r risg i geffylau, i chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn asesu'r ceffyl harnais am ei addasrwydd ar gyfer parhau i'w ddefnyddio mewn harnais
2. pwysigrwydd egluro'r rheswm pam y mae angen asesu'r ceffyl, ac amgylchiadau unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad yn cynnwys y ceffyl
3. effaith ymddygiad a natur y ceffyl ar barhau i'w ddefnyddio yn yr harnais
4. y meini prawf fydd yn pennu a yw'r ceffyl yn addas ar gyfer hyfforddiant adsefydlu
5. dulliau diogel, gwaraidd ac effeithiol o bennu ymddygiad a natur y ceffyl
6. sut i bennu a bodloni targedau gwerthuso
7. sut i ysgrifennu adroddiad ar addasrwydd y ceffyl ar gyfer hyfforddiant adsefydlu
8. sut i baratoi adroddiad at ddibenion yswiriant a thystion cyfreithiol/arbenigol
9. sut i sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, trwy gydol y gweithgaredd

Asesu ceffylau harnais ar gyfer defnydd parhaus mewn harnais

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq503 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; busnes; harnais |